# Cynllun Grant Gweithdai Ymchwil 2025-2026

# Cwestiynau Ymgeisio

**Sylwer: Pwrpas y ddogfen hon yw eich helpu i baratoi eich cais ar gyfer Cynllun Grant Gweithdai Ymchwil 2025-2026 Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Rhaid cyflwyno'r ceisiadau trwy ddefnyddio ein Ffurflen Ar-lein.**

Cyn cyflwyno eich cais, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y canllawiau.

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais neu os byddwch angen rhagor o gymorth i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â ni:
researcherdevelopment@lsw.wales.ac.uk

**Bydd yr alwad yn agor ar: 8 Medi 2025**
**Bydd yr alwad yn cau ar: 31 Hydref, 4pm**

---

**Iaith**

Cewch lenwi'r ffurflen hon yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

---

**Manylion yr Ymgeisydd Arweiniol**

(Sylwer: yr ymgeisydd arweiniol fydd y prif gyswllt ar gyfer y grant)

1. Enw llawn:
2. Sefydliad:
3. Teitl swydd:
4. Cyfeiriad e-bost:
5. Dolenni ar gyfer presenoldeb ar-lein (gwefan/y cyfryngau cymdeithasol ac ati):

---

**Manylion y Cydweithredwr/Cydweithredwyr**

6. Nodwch enwau a manylion cyswllt y cydweithredwr arall/cydweithredwyr eraill a fydd yn gysylltiedig â'r grant hwn a nodwch beth fydd eu rôl o ran cynllunio a chyflawni'r prosiect (yn cynnwys a fuont yn gysylltiedig â datblygu'r cais hwn). Os yn

berthnasol, gallwch hefyd gyflwyno dolenni ar gyfer eu presenoldeb ar-lein (e.e. gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol):

---

**Y Prosiect Arfaethedig**

7. Teitl y prosiect **(hyd at 10 gair)**:

8. Maes pwnc/thema'r ymchwil:

9. Disgrifiwch eich prosiect mewn 50 gair neu lai, er budd pobl nad ydynt yn arbenigwyr:

10. Am ba ffrwd ydych yn ymgeisio? (Dim ond am un ffrwd y gallwch ymgeisio)

    - Astudiaethau Cymru
    - Ymchwilydd Gyrfa Gynnar
    - Y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol
    - Llwybrau at Heddwch (a noddir gan yr Academi Heddwch)

11. Nodwch sut y bydd y prosiect yn bodloni'r meini prawf ychwanegol ar gyfer y ffrwd berthnasol (gweler y ddogfen ganllawiau) **(hyd at 200 gair)**:

    - **Astudiaethau Cymru:**
      Nodwch berthnasedd eich prosiect yng nghyd-destun Cymru.
    - **Ymchwilydd Gyrfa Gynnar:**
      Nodwch pam rydych yn eich ystyried eich hun yn Ymchwilydd Gyrfa Gynnar a beth fydd gwerth y Gweithdy/Gweithdai arfaethedig i'ch maes ymchwil ac i'ch datblygiad proffesiynol.
    - **Y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol:**
      Nodwch sut y bydd cydberthnasau'n cael eu datblygu ar draws cymunedau ymchwilwyr, gan arwain o bosibl at ddwyn disgyblaethau ynghyd trwy gyfrwng cynigion arloesol yn y dyfodol.
    - **Llwybrau at Heddwch (a noddir gan Academi Heddwch Cymru):**
      Nodwch ai'r bwriad yw ymdrin â Militariaeth Gyfoes ynteu â Heddwch yn gyffredinol, a nodwch sut y bydd y prosiect yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r pwnc perthnasol.

    Yn ychwanegol at yr uchod, ystyriwch sut y bydd eich prosiect yn cyfrannu at o leiaf un nod o blith saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

---

**Nodau'r Prosiect**

12. Beth yw'r prif amcanion ar gyfer y defnydd a wneir o'r grant hwn? **(hyd at 400 gair)**

13. Nodwch gynllun ar gyfer yr ymagwedd a'r dulliau a roddir ar waith i gyflawni'r prosiect. Sut y byddwch yn trefnu'r gweithdy/gweithdai a beth fydd yn digwydd yn ystod y gweithdy/gweithdai? Disgrifiwch yn gryno sut y bydd y bobl dan sylw (yn cynnwys yr ymgeisydd arweiniol) yn meddu ar yr wybodaeth a'r profiad perthnasol i gyflawni'r cynllun hwn. **(hyd at 400 gair)**

14. Beth yw canlyniadau arfaethedig y prosiect? Disgrifiwch y canlyniadau tymor canolig a thymor hir a/neu'r effaith y disgwyliwch i'ch gweithdy ei chael, a nodwch y camau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau'r canlyniadau a/neu'r effeithiau hyn. Ystyriwch hefyd sut y bydd eich prosiect yn datblygu a hyrwyddo gwaith Cennad Ddinesig, a ddiffinnir gan MEDR fel sut y bydd y grant gweithdy yn 'gweithredu er lles y cyhoedd ehangach'. **(hyd at 450 gair)**

15. Faint o gymorth ariannol y gofynnir amdano (hyd at £1,000, neu £2,000 ar gyfer y rhai sy'n ymgeisio am y ffrwd Llwybrau at Heddwch lle ceir partner rhyngwladol)? Os byddwch angen cyllid ychwanegol i gyflawni eich canlyniadau, o ble y daw'r cyllid hwnnw?

16. Sut y bydd cyllid grant Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn cael ei ddefnyddio? Rhaid seilio'r gyllideb a'r costau ar amcangyfrifon dilys.

---

**Uniondeb Ymchwil a Phartneriaethau Teg**

17. Beth yw goblygiadau moesegol posibl eich prosiect a sut y byddwch yn sicrhau y bydd eich prosiect yn dilyn egwyddorion uniondeb ymchwil (fel y'u nodir yn UKCORI) ac y bydd eich gwaith ymchwil yn cael ei reoli'n effeithiol (gweler canllawiau ar gynnal gwaith ymchwil da i gael rhagor o wybodaeth)? Dylai eich ateb ddangos eich bod wedi ystyried sut y byddwch yn mynd i'r afael ag anghenion penodol yn ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. **(hyd at 400 gair)**

18. Os yn berthnasol, rwy'n bwriadu ceisio cymeradwyaeth foesegol ar gyfer y prosiect hwn, os bydd fy nghais yn llwyddiannus.

    *Sylwer: Elfen ddewisol yw hon ac ni fydd yn dylanwadu ar ganlyniad y penderfyniad. Wrth benderfynu a ydych am geisio cymeradwyaeth foesegol, ai peidio, dylech ystyried a oes gennych fynediad at bwyllgor moeseg a pha un a fyddwch yn defnyddio eich gweithdy/gweithdai i gasglu data gan destun byw a/neu a ydych yn bwriadu cyhoeddi canfyddiadau neu ganlyniadau ar sail data a gasglwyd yn y gweithdy/gweithdai.*

- Ydw
- Nac ydw, neu nid oes angen gwneud hyn (nodwch eich rhesymau)

19. Rwy'n cadarnhau bod y cais hwn wedi'i lunio trwy ddilyn egwyddorion a safonau Uniondeb Ymchwil. Mae'r cynnig yn cynnwys syniadau a luniwyd gan yr ymgeisydd arweiniol ar y cyd â'r cydymgeiswyr neu'r cydweithredwyr.

    - Ydw

20. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi hysbysu fy sefydliad (e.e. y swyddfa ymchwil a/neu'r adran gyllid) ynglŷn â'm bwriad i gyflwyno'r cais hwn, a'u bod wedi cytuno i'm cefnogi os bydd fy nghais yn llwyddiannus.

    - Ydw

21. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen telerau'r cynllun cyllido a'm bod yn cytuno â nhw:
    - Ydw

---

[DIWEDD Y CAIS]